

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd
nos **Lun, 11 Ionawr 2021 am 7:00p.m trwy gyfrwng Zoom.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Anne Roberts, Mike van der Eijk a Heather Williams.

12. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

13. DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaeth y Cynghorwyr Jim Bryan ac Anne Roberts ddatgan buddiant gan eu bod wedi bod yn rhan o'r trafodaethau dechreuol ynghylch prosiect adfer Cloc y Dref.

14. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2021 yn gywir.*

15. MATERION YN CODI

Cyfeiriodd aelod at y cais am estyniad i'r dyfarniad statws Croesawu Bysiau Moethus. Y Clerc i fynd ar drywydd hyn.

16. CYNLLUN GRANT YMATEB CANOL TREFI I COVID-19

Hysbyswyd yr aelodau fod y cais am gyllid grant wedi bod yn llwyddiannus ac y derbyniwyd llythyr yn cynnig dyfarnu grant o £14,094.72, gydag 20% o arian cyfatebol i'w ddarparu gan Gyngor Tref Rhuthun. Roedd yr aelodau o blaid cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio Adeilad Rhestredig cyn gosod y peiriant a byddai hyn yn cael ei drafod gan y Cyngor llawn yn y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD: *derbyn y swm llawn a gynigiwyd ac i'r Clerc gadarnhau hyn gyda Chyngor Sir Ddinbych.*

17. DYFODOL RHUTHUN – CAE DDÔL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y dull gorau o wella'r llwybrau a'r cysylltiadau beicio yng Nghae Ddôl a'r posibilrwydd o newid cynllun gosod yr offer chwarae. A ddylai Cyngor Tref Rhuthun arwain ar hyn neu a ddylid atgyfodi Ffrindiau Cae Ddôl? Roedd yr aelodau o'r farn y dylid cael ymwneud cryf gan y gymuned ac awgrymwyd ysgrifennu llythyr gan y Cyngor at y grwpiau a'r mudiadau sy'n bodoli eisoes er mwyn trefnu cyfarfod i drafod hyn, a chysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych a Chyfoeth Naturiol Cymru i holi am waith arfaethedig i atal llifogydd yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: *cysylltu gyda grwpiau a mudiadau sy'n bodoli eisoes a Chyngor Sir Ddinbych a Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch cylluniau ar gyfer Cae Ddôl yn y dyfodol.*

18. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 8 Mawrth 2021 am 7pm.*